# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 28 Tachwedd 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Lleddfu Pwysau Ardrethi Busnes Uchel (Ynys Môn)

**C13 Peter Rogers:** Yn ei bolisi ar gyfer gogledd Cymru, a wnaiff Prif Weinidog Cymru gydlynu'r gweithredu i sicrhau y rhoddir polisïau yn eu lle i leddfu'r pwysau sydd ar y busnesau hynny yn Ynys Môn sydd yn wynebu ardrethi busnes rhy uchel? (OAQ8022)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyflwynwyd cynllun cymorth trosiannol ar gyfer Cymru yn Ebrill 2000 i amddiffyn busnesau bach rhag codiadau mawr mewn ardrethi busnes. Mae bron i 90 y cant o fusnesau sydd yn wynebu cynnydd o 10 y cant neu fwy yn elwa ar y cynllun hwn.

Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ddisgresiwn i ganiatáu hyd at 100 y cant o ostyngiad ardreth i fusnesau sydd yn wynebu anawsterau wrth dalu eu biliau ardrethi.

### Cymryd Polisïau Amgylcheddol i Ystyriaeth

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn sicrhau y bydd holl bolisïau'r Cynulliad yn cymryd polisïau amgylcheddol i ystyriaeth? (OAQ8030) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygu Polisïau yng Nghymru

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar berthynas ei Gabinet â Llywodraeth y DU mewn perthynas â datblygu polisïau yng Nghymru? (OAQ8032)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r berthynas rhwng y Cabinet a Llywodraeth y DU yn un cyfeillgar. Yr wyf yn trafod ystod eang o faterion ynghylch Cymru a'r DU yn gyson gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy. Mae fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet yn cwrdd â'u Gweinidogion cyfatebol yn San Steffan drwy gydol y flwyddyn. Mae'r concordatiau a'r memoranda dealltwriaeth yn sicrhau y gall Gweinidogion a swyddogion gynorthwyo ei gilydd ym maes datblygu polisi.

### Datblygu Polisïau (Delio â Materion Trawsbynciol)

**C16 Phil Williams:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru'n sicrhau bod y polisïau a luniwyd gan y Cynulliad yn delio â materion trawsbynciol fel cynaliadwyedd, cyfle cyfartal a dysgu gydol oes? (OAQ8033) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyflwyno Polisïau'r Cynulliad i'r Cyfryngau a'r Cyhoedd yn Gyffredinol

**C17 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y mae polisïau'r Cynulliad yn cael eu cyflwyno i'r cyfryngau a'r cyhoedd yn gyffredinol? (OAQ8027)

**Prif Weinidog Cymru:** Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad sydd yn gyfrifol am gyflwyno polisïau'r Cynulliad i'r cyfryngau a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae cyflwyno effeithiol yn rhan holl bwysig o ddatblygu a gweithredu polisi a llywodraeth dda. Cyflawnir hyn drwy wahanol ddulliau sydd yn amrywio o ddatganiadau gweinidogol a hysbysiadau i'r wasg i ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau marchnata, gan gynnwys safle'r Cynulliad ar y we.

## Integreiddio Polisïau a Chamau Gweithredu

**C18 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y gellir integreiddio'r polisïau a'r camau gweithredu yn well yn yr adrannau? (OAQ8028)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae cynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad, a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 16 Tachwedd, yn galw am ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym mhopeth a wna'r Cynulliad. Yr ydym yn anelu at gynhyrchu cynllun gweithredu i ddilyn trywydd y dyletswydd hwn yn Chwefror.

Mae cynllun gweithredu cynhwysiant cymdeithasol eisoes yn ei le, gyda thua £177 miliwn wedi'i gynnig yn y gyllideb ddrafft erbyn 2003-04.

Mae'r Pwyllgor sefydlog penodol ar Gyfle Cyfartal yn parhau i gael cefnogaeth lawn ar gyfer ei waith a'i ymgynghori ac mae hyn wedi arwain at gydweithio agosach gyda mudiadau cydraddoldeb wrth ddatblygu polisïau.

## Mynd i'r Afael â Thlodi'r Pensiynwyr yng Nghymru (Trafodaethau)

**C19 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â Gweinidogion y Trysorlys ynghylch mynd i'r afael â thlodi'r pensiynwyr yng Nghymru? (OAQ8018) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Gweithredu Penderfyniadau a Gymeradwywyd yn y Cyfarfodydd Llawn

**C20 Elin Jones:** Pa gamau a wnaethpwyd tuag at weithredu'r penderfyniadau a gymeradwywyd yn y Cyfarfodydd Llawn blaenorol? (OAQ8031) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Newid neu Ychwanegu at Gyfrifoldebau Aelodau'r Cabinet

**C21 Pauline Jarman:** A yw Prif Weinidog Cymru'n bwriadu newid neu ychwanegu at gyfrifoldebau Aelodau'r Cabinet? (OAQ8025) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Datblygu Polisïau Trawsbynciol sydd yn Mynd i'r Afael ag Adfywiad Economaidd Cymru

**C22 David Davies:** Beth y mae Prif Weinidog Cymru'n ei wneud i sicrhau bod y Cabinet yn cydweithio er mwyn datblygu polisïau trawsbynciol sydd yn mynd i'r afael ag adfywiad economaidd Cymru? (OAQ8020)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae adfywio economaidd yn fater allweddol i'r Cynulliad roi sylw iddo ac mae ei sylwadau yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ddiwygiedig. Bydd y strategaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu polisi economaidd yng Nghymru. Bydd yn gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol economi Cymru a'r polisïau y bydd eu hangen arnom i'n symud ymlaen yn y cyfeiriad cywir. Caiff amrywiaeth mawr o faterion eu trafod yn y ddogfen sydd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd gan gynnwys sgiliau, datblygiad/twf busnes, rhyngwladoli, gweithgarwch economaidd, isadeiledd ac adfywio cymunedol. Mae'n debyg mai'r themâu allweddol a fydd yn llifo drwy'r ddogfen fydd datblygu cynaliadwy, gweithlu medrus a hyblyg a newid yn economi a yrrir gan wybodaeth.

Rhaid i'n holl bolisïau sicrhau bod twf economaidd yn gynaliadwy. Datblygu cynaliadwy yw'r fframwaith trosfwaol ar gyfer holl bolisïau newydd a phresennol y Cynulliad. Bydd yn rhan o bopeth a wnawn a bydd yn galw am ddatblygu polisi cwbl integredig.

## Cynyddu Proffil Cymru o fewn y DU

**C23 Geraint Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Brif Weinidog Cymru ar gyfer cynyddu proffil Cymru o fewn y Deyrnas Unedig? (OAQ8037) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Perthynas Rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a’r Gwasanaeth Sifil**

**C24 Owen John Thomas:** A wnaiff Brif Weinidog Cymru ddatganiad ar y berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a’r Gwasanaeth Sifil? (OAQ8014)

**Prif Weinidog Cymru:** Gweision sifil yw pob aelod staff yn y Cynulliad, fel sydd yn ofynnol o dan adran 34 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Nid oes unrhyw berthynas heblaw honno rhwng cyflogwr a gweithiwr cyflogedig.

**Y Rhaglen Ddeddfwriaeth sydd ar y Gweill gan Lywodraeth y DU (Trafodaethau)**

**C25 Ieuan Wyn Jones:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y rhaglen ddeddfwriaeth sydd ar y gweill gan Lywodraeth y DU a’i effaith ar Gymru? (OAQ8038)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi cael trafodaethau cyson â’r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch hyn.

**Trafodaethau ynghylch y Llifogydd Difrifol a Gafwyd yng Nghymru**

**C26 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u cael â Gweinidogion Cabinet y DU ynghylch y llifogydd difrifol a gafwyd yng Nghymru? (OAQ8039)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi cael trafodaethau cyson ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a’i gydweithwyr ar ystod eang o faterion gan gynnwys llifogydd. Cynrychiolodd Sue Essex y Cynulliad mewn cyfarfod o Weinidogion, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Weinidog, ar 4 Tachwedd. Caiff y Cynulliad ei gynrychioli ar Weithgor Llifogydd Swyddfa’r Cabinet o swyddogion sydd dan gadeiryddiaeth Elliot Morley AS.

**Rôl y Cynulliad o safbwynt Deddfwriaeth Sylfaenol y DU**

**C27 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar rôl y Cynulliad Cenedlaethol o safbwynt deddfwriaeth sylfaenol y DU sydd yn effeithio ar Gymru? (OAQ8036) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Swyddogaethau Cabinet y Cynulliad**

**C28 Brian Hancock:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch swyddogaethau Cabinet y Cynulliad ar ôl yr ad-drefnu diweddar? (OAQ8035) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynrychiolaeth y Cabinet**

**C29 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch cynrychiolaeth gogledd a gorllewin Cymru ar y Cabinet? (OAQ8012) ***Tynnwyd yn ôl.***